Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar wasanaethau ieuenctid

**Irene Bucelli ac Abigail McKnight**
Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain
Medi 2022

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu llywio a gwella polisïau, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu meithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy www.wcpp.org.uk

## Arianwyr Craidd

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sef sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK ac Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Cyd-destun polisi | 7 |
| Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi | 14 |
| Heriau a ffactorau hwyluso | 24 |
| Casgliad | 25 |
| Cyfeirnodau | 27 |
| Atodiad: Methodoleg | 34 |
| Diolchiadau | 39 |

# Crynodeb

- Mae gwasanaethau ieuenctid yn chwarae rhan bwysig o ran helpu pobl ifanc i deithio'r llwybr i annibyniaeth, ac yn cynnig cyfle ar gyfer ymyriad cynnar yn achos pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd. Maent yn helpu i leihau allgáu cymdeithasol, ac yn mynd i'r afael â rhai agweddau ar dlodi.

- Gall mynediad at wasanaethau ieuenctid fod yn hanfodol i bobl ifanc ddifreintiedig. Gall sicrhau bod gwasanaethau'n rhai mynediad agored osgoi labelu a stigma.

- Mae gwasanaethau ieuenctid yn debygol o fod yn fwyfwy pwysig oherwydd y modd y bu i bandemig y coronafeirws darfu ar fywydau llawer o bobl ifanc, gan effeithio ar eu proses o bontio i annibyniaeth.

- Mae cysylltiadau rhwng gwasanaethau ieuenctid a meysydd polisi yr ymdrinnir â nhw mewn adolygiadau eraill, er enghraifft:
  - **Anfantais drafnidiaeth; Amgylchedd cymdogaeth:** Mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn hanfodol i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwasanaethau ieuenctid. Gall cynllunio cymdogaeth helpu i sicrhau gwasanaethau lleol a hygyrch.
  - **Defnydd o drosglwyddiadau arian parod:** Gall cymryd rhan mewn gwasanaethau ieuenctid roi cyfle i gynnig cymorth i bobl ifanc y gallai fod angen help arnynt i gael mynediad at wasanaethau a buddion.

- Rydym yn cwblhau'r adolygiad gyda rhai camau gweithredu addawol a all gefnogi rôl gwasanaethau ieuenctid o ran gwella cyfleoedd bywyd grwpiau difreintiedig yng Nghymru, sef:
  - Mae darpariaeth mynediad agored yn hyrwyddo cynwysoldeb ac yn osgoi'r stigma sy'n aml yn codi o dargedu gwasanaethau i'r rhai mwyaf difreintiedig.
  - Mae cyfranogiad ystyrlon gan bobl ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid yn gofyn am ymgysylltiad gweithredol a dylanwad gwirioneddol, yn hytrach na phresenoldeb goddefol neu rolau symbolaidd, a gall arwain at welliannau i wasanaethau a manteision i bobl ifanc.
  - Mae tystiolaeth o ansawdd da bod cyfrannu at wneud penderfyniadau mewn gwasanaethau ieuenctid yn arwain at well sgiliau cymdeithasol (effeithiolrwydd ac empathi). Mae cyfleoedd arwain neu wneud penderfyniadau yn arwain at fwy o deimladau o berchnogaeth a grymuso a lefelau uwch o bresenoldeb.

# Cefndir

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i adolygu strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau tlodi ac allgáu cymdeithasol ledled y byd. Fel rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE)[1] yn Ysgol Economeg Llundain i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol ar bolisïau a rhaglenni addawol a gynlluniwyd i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws deuddeg maes polisi allweddol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau ieuenctid.

Dyma'r cwestiynau allweddol a ofynnwyd ym mhob un o'r deuddeg adolygiad polisi:

- Pa bolisïau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol sy'n effeithiol wrth leddfu tlodi?
- Pa briodweddau/safonau a nodweddion sy'n allweddol neu'n gyffredin i'r gwahanol ddulliau hynny?

Ymdrinnir â'r cwestiynau drwy ddarparu:

- Cyd-destun Cymru ym mhob maes polisi a phrif fentrau Llywodraeth Cymru;
- Gwybodaeth fanwl am berthynas y maes polisi dan sylw â thlodi ac allgáu cymdeithasol;
- Crynodeb o'r dystiolaeth ynghylch profiad a allai helpu i ddeall effaith polisïau ar bobl ac ymateb y bobl i bolisïau o'r fath;
- Trosolwg o'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch effeithiolrwydd polisïau (gan gynnwys astudiaethau achos); a
- Heriau a ffactorau hwyluso sy'n gysylltiedig â rhoi polisïau ar waith.

Yn ogystal â'r deuddeg adolygiad polisi, rydym wedi llunio adroddiad trosolwg sy'n crynhoi'r dystiolaeth allweddol o bob adolygiad unigol, nodi cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi a chloriannu'r holl dystiolaeth i roi nifer o argymhellion polisi, neu gamau gweithredu addawol, ym mhob un o'r deuddeg maes. Cyfeiriwch at yr

[1] Sefydlwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE) yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain (LSE) ym 1997. Canolfan ymchwil amlddisgyblaethol ydyw sy'n archwilio anfantais gymdeithasol a rôl polisïau cymdeithasol a chyhoeddus wrth ei hatal, ei lliniaru neu ei gwaethygu. Mae gan ymchwilwyr yn CASE brofiad helaeth o gynnal adolygiadau polisi sy'n ymdrin â thystiolaeth yn y Deyrnas Unedig a llenyddiaeth ryngwladol.

Atodiad i gael manylion am fethodoleg, gan gynnwys sut y dewiswyd y deuddeg maes polisi penodol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd gan WCPP fel rhan o'i gwaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r gwaith hwn gan CASE, ceir dau adroddiad ar natur, graddfa a chyfeiriad tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru – un yn canolbwyntio ar dystiolaeth a data meintiol, a'r ail yn canolbwyntio ar dystiolaeth o brofiad go iawn (Carter, 2022a; 2022b). Comisiynodd WCPP hefyd y Sefydliad Polisi Newydd i gynnal adolygiad o strategaethau lliniaru tlodi rhyngwladol (Kenway et al., 2022) sy'n archwilio dulliau llywodraethol cyffredinol o fynd i'r afael â thlodi.

# Cyflwyniad

Mae gwasanaethau ieuenctid yn chwarae rhan bwysig o ran helpu pobl ifanc i deithio'r llwybr i annibyniaeth, ac yn cynnig cyfle ar gyfer ymyriad cynnar yn achos pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd. Maent yn helpu i leihau allgáu cymdeithasol, ac yn mynd i'r afael â rhai agweddau ar dlodi. Codwyd pryderon am doriadau sylweddol mewn cyllid i wasanaethau ieuenctid ers argyfwng ariannol 2007/08 a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar risgiau allgáu cymdeithasol a thlodi tymor hwy i bobl ifanc ddifreintiedig (Jervis, 2018).

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, sicrhau eu bod yn cael eu darparu neu gyfrannu at eu darparu. Diffinnir y gwasanaethau hyn fel rhai sy'n galluogi a chynorthwyo pobl ifanc (11-25 oed):

a. 'i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,
b. i fanteisio ar gyfleoedd i gael gwaith, neu
c. i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau' (Llywodraeth Cymru, 2019).

Bydd yr adolygiad hwn yn cwmpasu gwasanaethau ieuenctid mynediad agored traddodiadol sy'n darparu cyfleoedd dysgu a gweithgareddau hamdden, diwylliannol a chwaraeon, ond hefyd gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer pobl sy'n agored

iawn i niwed i raddau helaeth, sy’n aml yn profi (neu mewn perygl o) anfanteision lluosog, o amddifadedd materol i allgáu addysgol,[2] trais neu droseddu.[3]

Mae nifer o adroddiadau diweddar ar gyflwr y sector yn pwysleisio bod darpariaeth gwasanaeth ieuenctid mynediad agored traddodiadol (e.e. gweithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chyfoethogi, profiadau dysgu heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol, yn aml yn seiliedig ar ganolfannau ieuenctid ac yn cynnwys gwaith yn y gymuned ac ar y stryd) wedi gweld gostyngiad yn y cyllid a ddyrannwyd ac argaeledd, gyda sefydliadau’r trydydd sector yn darparu’r gwasanaethau hyn yn lle awdurdodau lleol ar adegau (CYPE,  2016; Estyn, 2018; Jervis, 2018). Mewn cyferbyniad, bu cynnydd mewn ymyriadau wedi'u targedu, sy'n seiliedig ar atgyfeiriadau, er enghraifft yn canolbwyntio ar bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) ond hefyd drwy wasanaethau iechyd rhywiol, timau cyfiawnder ieuenctid, cymorth digartrefedd a gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r newid hwn mewn sylw hefyd wedi cyd-daro â darnio gwasanaethau, wrth i bobl ifanc gael eu cyfeirio at nifer o wahanol wasanaethau ymyrraeth (Estyn, 2018), tra bod y dull yn peryglu labelu pobl ifanc mewn categorïau stigma (Jervis, 2018), gan ganolbwyntio ar broblemau mewn ffordd a allai ymwreiddio allgáu cymdeithasol.

# Cyd-destun polisi

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn canolbwyntio ar waith ieuenctid fel elfen graidd allweddol o wasanaethau cymorth ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae'r strategaeth yn ailddatgan yr ymrwymiad i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn unol â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'n rhoi pwyslais ar ddull cyfranogol sy'n cynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ac ymgorffori dulliau o gryfhau eu llais wrth wneud penderfyniadau yn y maes polisi hwn (e.e. drwy rwydweithiau ieuenctid, cynghorau ieuenctid, gweithredu dan arweiniad ieuenctid ar lefelau lleol yn ogystal â thrwy werthuso ar sail holiaduron ac arolygon gyda phobl ifanc). Mae'r strategaeth hefyd yn cadarnhau ymrwymiad i amrywiaeth o

[2] Ni fydd yr adolygiad yn ymdrin ag agweddau ar waith ieuenctid sy'n gorgyffwrdd â'r adolygiad ar addysg bellach a sgiliau sy'n rhan o'r gyfres hon.

[3] Mae gwasanaethau ieuenctid i droseddwyr ifanc y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad cyflym hwn, ond mae'n amlwg bod hwn yn faes polisi pwysig sy'n haeddu ei adolygiad polisi ei hun i weld pa wersi pellach y gellir eu dysgu o wahanol ddulliau rhyngwladol. Mae gan wasanaethau ieuenctid rôl allweddol i'w chwarae o ran atal troseddwyr ifanc, eu hamddiffyn, gofalu amdanynt a’u trin.

fesurau i gryfhau proffesiynoldeb o fewn gweithlu'r sector ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddol, er enghraifft, drwy:

- Ei fframwaith o gymhwyster gwaith ieuenctid a chymorth ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol;
- Gwaith Cyngor y Gweithlu Addysg (a sefydlwyd yn 2017 fel rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer gweithwyr ieuenctid); a
- Chymorth i Gyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru sy'n darparu cyfleoedd hyfforddi, cyngor a rhwydweithio i'r sector gwirfoddol.

Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys buddsoddiad o £10 miliwn drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid – mae hyn yn cynnwys £2.5m i gefnogi iechyd meddwl a lles pobl ifanc, a £3.7 miliwn arall i helpu i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Rhaid deall hyn mewn cyd-destun lle mae ariannu gwasanaethau ieuenctid wedi'i gydnabod fel y pryder mwyaf i'r sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Jervis, 2018).

Ariennir gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r prif gyfraniad gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ond mae awdurdodau lleol yn derbyn cyllid hefyd, er enghraifft, ar gyfer lles neu ddigartrefedd ieuenctid drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid. Mae gwariant ar wasanaethau ieuenctid wedi lleihau, er hynny i raddau llai dramatig nag yn Lloegr, lle adroddwyd ei fod yn 71% rhwng 2010/11-2018/19. Dangosodd O'Donnell et al. (2019) fod cyllid wedi gostwng 34% yng Nghymru mewn termau real rhwng 2011 a 2018, sy'n cyd-fynd â ffigurau a adroddwyd gan YMCA (2020) a amcangyfrifodd ostyngiad o £50 miliwn yn 2010/11 i £31 miliwn yn 2018/19 – gostyngiad o 38% mewn gwariant go iawn. Mae'r niferoedd hyn yn cuddio amrywiadau rhanbarthol, gyda phob ardal yn gweld gostyngiad o 25% o leiaf, ond rhai'n profi gostyngiadau mwy e.e. tua 58% yng ngorllewin Cymru (YMCA, 2020).

Yng Nghymru, mae cyllid ar gyfer gwasanaethau ieuenctid wedi'i gynnwys yn y gyllideb addysg, a oedd yn cyfrif am 2% yn 2010/11 ac 1% yn 2018/19. Dangosodd y ffigurau diweddaraf ar gyllid gwaith ieuenctid ar gyfer 2019/20 gynnydd i £37.7 miliwn. Cyfanswm y gyllideb gwaith ieuenctid graidd oedd £15.7 miliwn (sy'n ostyngiad gwirioneddol o 11% o'r flwyddyn flaenorol), tra bod £22 miliwn wedi dod o ffynonellau eraill, fel Teuluoedd yn Gyntaf a Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2021). Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 15% o bobl ifanc 11 i 25 oed yn aelodau cofrestredig o ddarpariaeth statudol y sector gwaith ieuenctid, sy'n sefydlog ers y flwyddyn flaenorol (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2021) ond yn is na'r 20% a oedd wedi'u cofrestru yn 2013/14, a disgrifiwyd y gostyngiad cynharach fel tuedd frawychus ar i lawr (CYPE, 2016).

Yn ogystal â'i phwyslais ar waith ieuenctid a gwasanaethau ieuenctid, mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cyfeirio at ddigwyddiadau neu amgylchiadau trawmatig sy'n digwydd yn ystod plentyndod, gan gynnwys cam-drin plant (cam-drin ac esgeuluso corfforol ac emosiynol) a phrofiadau ehangach o gamweithredu yn y cartref (trais domestig, rhieni'n gwahanu, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl neu rieni'n cael eu carcharu). Gall y profiadau hyn arwain at les corfforol a meddyliol gwaeth, canlyniadau addysgol is, perthynas waeth ag eraill ac anfantais economaidd. Gallant hefyd gynyddu'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Po fwyaf Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a gaiff blant, y mwyaf yw'r risg o ganlyniadau gwaeth yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae hyn yn golygu bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn rhwystro pob plentyn rhag cael y dechrau gorau posibl i fywyd. Mae hwn yn faes polisi sy'n dal i esblygu, ond mae elfennau allweddol yn cynnwys sefydlu Canolfan Gymorth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod ar gyfer Cymru, sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol o Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid a chyfiawnder ieuenctid) a chynorthwyo teuluoedd a rhieni i leihau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

# Y berthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Gall bregusrwydd ac anfantais a brofir ar adeg gynnar ac allweddol ym mywydau pobl arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol ac ôl-effeithiau niweidiol. Ceir tystiolaeth gref o ddylanwad effeithiau cronnol gwahanol fathau o anfantais yn ystod bywyd cynnar ar ganlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd (Strandh et al., 2014; Nelson et al., 2013). Mae ymchwil ar brofiad o allgáu cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig ymhlith pobl ifanc 16-24 oed yn dangos bod oedolion ifanc yn fwy tebygol o brofi amddifadedd ar draws dimensiynau Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM; Levitas et al., 2007) mewn perthynas ag adnoddau materol (gan gynnwys tlodi goddrychol) ond hefyd o ran amodau byw a chyfranogiad economaidd a chymdeithasol (Fahmy, 2017; 2018) – gweler yr Atodiad am ragor o wybodaeth am y B-SEM.

Trwy gymharu pa mor agored yw pobl ifanc i dlodi incwm ac amddifadedd aml-ddimensiynol, gwelir bod cyfran y rhai sy'n agored i'r olaf yn sylweddol uwch na'r cyntaf – mae hyn yn debygol o adlewyrchu anghydraddoldebau o ran sut y caiff adnoddau eu dosbarthu o fewn yr aelwyd a'r tebygolrwydd uwch o amddifadedd aml-ddimensiynol yn effeithio ar fenywod ifanc. Mae profiadau negyddol yn cael ôl-effeithiau niweidiol mewn perthynas ag ystod o ddimensiynau allgáu cymdeithasol

hefyd oherwydd yr amrywiaeth o newidiadau pwysig sy'n digwydd ar y cam tyngedfennol hwn o fywydau pobl. Mae newidiadau yn ystod ieuenctid yn gweld pobl yn symud o addysg amser llawn i'r farchnad lafur, yn ennill rhywfaint o annibyniaeth ar eu teulu gwreiddiol ac yn symud i ffwrdd o gartref eu rhieni, tra bod gweithgareddau cymdeithasol a hamdden yn ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar hunaniaethau cymdeithasol oedolion ifanc a chyfleoedd (canfyddedig a gwirioneddol). I rai, mae llwybrau i droseddoldeb a defnyddio cyffuriau yn llywio newidiadau yn ystod ieuenctid ymhellach (Webster et al., 2004; MacDonald, 2006).

Mae pobl ifanc yn y Deyrnas Unedig wedi dioddef yn anghymesur ar ôl yr argyfwng ariannol, gan fod yn fwy agored i ddiweithdra, ansicrwydd swyddi a thlodi mewn gwaith (Fahmy, 2018; Cooper a Hills, 2021). Er enghraifft, mae Padley a Hirsh (2014) wedi dangos mai oedolion iau yw'r rhai sydd wedi bod yn fwy agored i incwm isel a bod y nifer ohonynt sy'n ennill incwm isel wedi bod yn cynyddu gyflymaf. Archwiliodd Obolenskaya a Hills (2019) ganlyniadau economaidd newidiol yn y degawdau rhwng 1995-2005 a 2005-2015, gan ddangos bod oedolion iau yn yr ail ddegawd wedi wynebu'r gostyngiad mwyaf mewn lefelau cyflog mewn termau real, ac yn ystod y ddau ddegawd eu bod hefyd wedi profi'r twf incwm canolrifol arafaf o gymharu â grwpiau oedran eraill, a bod y twf hwn i gyd wedi digwydd yn y degawd cyntaf.

Mae diwygiadau lles wedi taro'r rhan hon o'r boblogaeth yn sylweddol, er enghraifft drwy doriadau mewn nawdd cymdeithasol y dangoswyd eu bod wedi effeithio'n fwyaf difrifol ar deuluoedd (yn enwedig rhai mawr) gyda phlant, tra bod gwariant a pholisi nawdd cymdeithasol wedi ffafrio'r rhai sy'n hŷn na'r oedran pensiwn gwladol (Cooper a Hills, 2021). Oedolion ifanc sydd wedi gweld y cwymp mwyaf mewn enillion gwirioneddol ar ôl yr argyfwng ac fe'u trawyd galetaf gan y newid mewn costau tai (Cooper a Hills, 2021). Mae amodoldeb a sancsiynau lles cynyddol hefyd wedi gwthio pobl ifanc i dderbyn gwaith ansicr sydd o ansawdd isel a chyflog isel, gan ymwreiddio tlodi ac anfantais (Fahmy, 2017). Yn y cyfamser, yn ystod y degawdau diwethaf, mae polisi ieuenctid y Deyrnas Unedig wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddealltwriaeth gul o allgáu cymdeithasol, ac ar bolisïau ysgogi i hybu cyfranogiad economaidd yn benodol, yn hytrach na pholisïau sy'n canolbwyntio ar dlodi. Mae'r dulliau hyn yn arwain at 'y gred bod ailddosbarthu incwm a chyfoeth yn ymatebion amhriodol i dlodi, yn enwedig mewn perthynas â sefyllfa ieuenctid' (Fahmy, 2017, tud.44).


Gall gwasanaethau ieuenctid a gwaith ieuenctid gyfrannu at wella amrywiaeth o ffenomena sy'n arwain at allgáu cymdeithasol. Er enghraifft, gall darparu cyfleoedd hyfforddi a dysgu heb fod yn ffurfiol gynyddu cymhelliant a rhoi sgiliau newydd, gan wasanaethu fel sbardun i gaffael cymwysterau ffurfiol, ar yr un pryd â meithrin rhwydweithiau cymdeithasol a all helpu i bontio o'r ysgol i'r gwaith (y Comisiwn Ewropeaidd, 2013; Hill, 2020). Fodd bynnag, er bod plant a phobl ifanc yn ganolog i'r

agenda bolisi allgáu cymdeithasol, roedd y rhan fwyaf o fentrau allgáu cymdeithasol yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u gwerthuso gan oedolion, a dyna yw’r sefyllfa o hyd (Hill et al., 2004).

Gall gwasanaethau eiriolaeth a chymorth cyfreithiol feithrin integreiddio pobl ifanc sy'n profi allgáu a gwahaniaethu, a chyfrannu at ddileu'r rhwystrau sy'n seiliedig ar driniaeth anghyfartal wirioneddol neu dybiedig rhag cael mynediad at wasanaethau allweddol. Gall y gwasanaethau hyn fod yn arbennig o bwysig i bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n addysgol – sydd â chysylltiad eang ag ystod o ganlyniadau tymor byr negyddol (e.e. cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb, ymddygiad gwrthgymdeithasol) a chanlyniadau hirdymor (e.e. cyswllt â'r system gyfiawnder) (Welsh a Little, 2018).

Gall gwasanaethau ieuenctid sy'n darparu mynediad agored at weithgareddau cymdeithasol a hamdden gyfrannu at integreiddio, meithrin ymdeimlad o gymuned, ehangu rhwydweithiau cymdeithasol a chynhyrchu effeithiau cadarnhaol gan gymheiriaid (y Comisiwn Ewropeaidd, 2013). Felly, gall gwaith ieuenctid gyfrannu at ddatblygiad personol a chyfrannu at gyfranogiad cymdeithasol mewn ystyr ehangach, drwy feithrin sgiliau cymdeithasol, rhwydweithiau cymorth, a darparu lle diogel i fod (Hill, 2020). Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y rôl amddiffynnol allweddol a chwaraeir gan rwydweithiau cymorth cymdeithasol mewn perthynas â ffenomena arbennig o niweidiol fel digartrefedd (Bramley a Fitzpatrick, 2016). Mae Ffigur 1 yn amlinellu'r amrywiaeth gymhleth o ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau i bobl ifanc, gan dynnu sylw at sut mae gwasanaethau ieuenctid yn rhan annatod o'r ffactorau lleol a chenedlaethol amrywiol sy'n effeithio ar dlodi ac allgáu cymdeithasol.

### Ffigur 1. Gwasanaethau ieuenctid, ffactorau cyd-destunol ac effeithiau ar bobl ifanc




Ffynhonnell: Addaswyd gan yr awduron o Fitzgerald et al. (2014)

# Y berthynas â phrofiad pobl o dlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae ymchwil ar brofiad byw pobl ifanc ddifreintiedig wedi darlunio allgáu cymdeithasol fel proses gronnol ers tro. Gall pobl ifanc ei chael hi'n anodd goresgyn caledi lluosog ac mae eu llwybrau tuag at fod yn oedolion yn aml yn gyfres gymhleth o droeon, gyda throbwyntiau allweddol ac adegau tyngedfennol – pyliau o afiechyd, rhieni’n gwahanu neu brofedigaeth – tra bod eu profiadau o dlodi yn aml yn barhaus. Amlygodd Webster et al.  (2004) sut mae llif o newidiadau ar gyfer y grŵp hwn (mewn perthynas â newid tai, ffurfio partneriaethau, aelwydydd a theuluoedd newydd, profiadau troseddol a defnyddio cyffuriau), yn aml yn gwrthgyferbynnu â diffyg cynnydd mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Er eu bod yn dangos agweddau ac ymlyniad confensiynol at waith, mae rhai pobl ifanc yn cael eu dal mewn cylchoedd o waith ansicr â chyflog isel ar waelod y farchnad lafur, diweithdra, ac addysg a hyfforddiant tymor byr, neu anorffenedig weithiau, o ansawdd amrywiol.

Gan fod profiadau o doriadau i gyllid a chontractio allanol wedi bod yn gyffredin ar draws gwledydd yn ystod y degawdau diwethaf, mae corff o lenyddiaeth wedi ymchwilio i sut mae'r rhain yn effeithio ar brofiadau ac arferion gweithwyr y gwasanaeth ieuenctid mewn gwahanol gyd-destunau. Yr hyn sy'n dod i'r amlwg i raddau helaeth yw darlun a nodweddir gan orbryder a gofid mewn perthynas â'r effaith ar ddarparu gwasanaethau (Horton, 2016). Oherwydd gofynnir i ymarferwyr wneud mwy gyda llai, ystyrir yn aml bod newidiadau'n peryglu'r ystod o nodau y mae'r gwasanaethau hyn yn ceisio eu cyflawni (UNSAIN, 2016). Mae rhagdybiaethau sy'n sail i bolisïau, arferion a dylunio rhaglenni yn ffurfio darlun o bobl ifanc fel rhai 'cythryblus' gan mwyaf, gan batholegu eu gweithredoedd a'u hymddygiad a chefnogi esboniad o anfantais ieuenctid wedi’i seilio ar ddiffyg i raddau helaeth (Davies, 2013; Finn et al., 2013). Mae ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau’n ymdopi â newidiadau i ddulliau gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, ac mae gwrth-haeriadau mewn llawer o achosion yn ildio i addasu a chymeradwyo blaenoriaethau a nodau newydd (Davies, 2019).

Gall dulliau gwahanol o ymdrin â gwaith ieuenctid ddehongli rôl y gwasanaethau hyn mewn perthynas â chynhwysiant cymdeithasol yn wahanol. Ar y naill law, gellir ystyried eu bod yn creu 'fforwm cymdeithasol', gan alluogi pobl ifanc i gwestiynu eu cyflwr cymdeithasol, mynegi eu hanghenion, ac ymwneud yn weithredol ac yn feirniadol â’u cymdeithas i ysgogi newid cymdeithasol. Yn hytrach, byddai dull gwahanol yn gweld gwaith ieuenctid fel offeryn ar gyfer addysg gymdeithasol, hyfforddiant dinasyddiaeth a mathau eraill o baratoi ar gyfer bod yn oedolyn (Taru et

al., 2014). Yn ymarferol, mae gwaith ieuenctid wedi cael ei ddehongli’n gynyddol gulach sydd wedi arwain, ledled Ewrop yn ystod y degawdau diwethaf, at duedd i weld gwaith ieuenctid fel arf i wella cyflogadwyedd pobl ifanc (Pantea, 2015). Mae hyn wedi cyd-daro â 'rhannu' gwaith ieuenctid yn adrannau a phwyslais ar ymyriadau wedi'u targedu at grwpiau yr ystyrir eu bod yn arbennig o 'broblemus' neu 'mewn perygl' (Pantea, 2015).

Gall y symudiad oddi wrth wasanaethau mynediad agored cyffredinol arwain at labelu a stigmateiddio’r rhannau o'r boblogaeth y mae'n eu gwasanaethu, gan atgyfnerthu rhaniadau rhwng pobl ifanc ac felly llesteirio potensial cynhwysol gwaith ieuenctid (Verschelden et al., 2010). Gall stigma ddieithrio grwpiau sydd eisoes yn anodd eu cyrraedd a’u gwneud yn fwy amharod i gymryd rhan, ac er bod amrywiaeth yn gallu creu tensiynau mewn gwaith ieuenctid mynediad agored, mae tystiolaeth hefyd ei bod yn cynnig cyfle i ddatrys gwrthdaro a bod pobl ifanc yn y lleoliadau hyn yn gwerthfawrogi amrywiaeth (Ord et al., 2021). Ceir tystiolaeth hefyd fod gwaith wedi'i dargedu, a gynhelir yn aml mewn cyd-destun o adnoddau cyfyngedig a phwysau i gyrraedd targedau a phrofi effeithiolrwydd, yn meithrin tuedd ymhellach i ganolbwyntio ar y bobl ifanc hynny yr ystyrir eu bod yn fwyaf derbyngar (Kelly, 2012). Gall hyn arwain at arferion sy'n canolbwyntio ar achosion llai heriol, gan flaenoriaethu ymyriadau tymor byr ar yr un pryd â chynnal cynrychiolaethau negyddol o bobl ifanc a chymdogaethau.

# Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Cyfranogiad ieuenctid** | Cryf (lled-arbrofol) | Effeithiol |
| **Gwasanaethau ieuenctid mynediad agored** | Cymysg (adolygiadau o dystiolaeth)<br>Mae canlyniadau asesiadau effaith meintiol amhriodol yn agored i gamddehongli a gallant arwain at ddiwygiadau niweidiol. | Effeithiol |

Mae'r adolygiad hwn yn cwmpasu tystiolaeth ar gyfranogiad ieuenctid mewn gwasanaethau ieuenctid, lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu rhaglenni (h.y. nid pa un a ydynt yn mynychu ai peidio), a gwaith ieuenctid mynediad agored. Mae'r adolygiad yn ymdrin ag enghreifftiau o fentrau llwyddiannus neu addawol yn y llenyddiaeth ryngwladol.

# Cyfranogiad ieuenctid

Mae cyfranogiad ystyrlon gan bobl ifanc yn cynnwys ymgysylltu gweithredol a dylanwad gwirioneddol, nid presenoldeb goddefol na rolau symbolaidd (Checkoway, 2011). Fel y nodwyd uchod, rydym yn ymddiddori yma mewn cymryd rhan weithredol, nid p'un a yw pobl ifanc yn mynychu gwasanaethau ieuenctid ai peidio.[4] Mae cyfranogiad ieuenctid yn cyd-fynd yn dda â dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwasanaethau ieuenctid, fel yr amlinellir yn ei Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru: 'Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru wedi'i seilio ar ymgysylltiad gwirfoddol pobl ifanc fel eu bod yn bartneriaid sy'n gallu lleisio eu barn'. (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi bod yn ddylanwadol iawn o ran cynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn materion sy'n effeithio arnynt (Hill et al., 2004). Mae'r cytuniad yn rhoi set gynhwysfawr o hawliau i bob plentyn a pherson ifanc (17 oed ac iau). O dan Erthygl 12, mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, a dylid rhoi pwys dyledus ar eu barn yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd.[5]

Yn y llenyddiaeth ar gyfranogiad ieuenctid, cyfeirir yn aml at 'ysgol cyfranogiad dinasyddion' Arnstein (1969) lle mae pob gris yn cynrychioli lefelau cyfranogiad sy'n cyfateb i raddau pŵer dinasyddion i bennu'r cynnyrch terfynol. Addasodd Hart (1992) ysgol Arnstein i adlewyrchu cyfranogiad plant a phobl ifanc ac i ddangos y gwahanol lefelau cyfranogiad (gweler Ffigur 2).

Mae Checkoway (2011) yn dadlau y dylid mesur cyfranogiad nid yn unig yn ôl cwmpas, ond hefyd yn ôl ansawdd. Mae nifer o fodelau cyfranogiad eraill gan gynnwys Llwybrau i Gyfranogiad gan Shier (2001) sy'n cynnwys pum lefel:

a) gwrandewir ar blant;
b) cefnogir plant i fynegi barn;
c) rhoir ystyriaeth i farn plant;
d) mae plant yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau; ac

---

[4] Mae gwasanaethau ieuenctid yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau y tu allan i'r ysgol fel clybiau ieuenctid, canolfannau ieuenctid, sefydliadau ieuenctid gwirfoddol, grwpiau gweithredu ieuenctid, ac ati.


[5] Mae Comisiynydd Plant Cymru yn gyfrifol am ddiogelu hawliau plant yng Nghymru fel y nodir yn y Confensiwn. Sefydlwyd y swydd yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a dechreuodd y Comisiynydd cyntaf yn ei swydd yn 2001.

e) mae’r broses o wneud penderfyniadau yn cael ei rhannu rhwng plant ac oedolion.

Mae'r holl ddulliau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad ystyrlon. Fel y mae Checkoway yn amlinellu:

> **"Mae cyfranogiad ieuenctid yn bwysig, oherwydd pan fydd pobl ifanc yn cymryd rhan, mae'n defnyddio eu harbenigedd, yn eu galluogi i arfer eu hawliau fel dinasyddion, ac yn cyfrannu at gymdeithas fwy democrataidd. Mae hefyd yn hyrwyddo eu datblygiad personol, ac yn rhoi gwybodaeth a sgiliau ymarferol sylweddol iddynt."** (Checkoway, 2011, tud.340)

**Ffigur 2: Ysgol cyfranogiad Hart**




Ffynhonnell: Addaswyd gan yr awduron o Hart (1992), tud.8

Mae cyfranogiad ieuenctid yn sicrhau buddion i bobl ifanc, oedolion, rhaglenni a chymunedau yn gyffredinol (Wheeler 2000; Flores, 2008). O ran rhaglenni datblygu ieuenctid, ceir tystiolaeth bod cynnwys pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol nag yn achos rhaglenni traddodiadol sy'n trin pobl ifanc fel derbynyddion (Gambone, Klem a Connell, 2002).

Mae tystiolaeth ansoddol o'r Unol Daleithiau yn canfod bod cynnwys pobl ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid yn helpu i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb. Roedd hyn yn fwy cyffredin mewn rhaglenni ac iddynt fwy o strwythur ac a oedd yn rhoi mwy o berchnogaeth ac atebolrwydd ar ysgwyddau pobl ifanc (Wood, Larson a Brown, 2009). Mae gwerthuso rhaglenni hefyd yn amlygu tystiolaeth o fanteision cadarnhaol cyfranogiad ieuenctid (Kirschner ac O'Donoghue, 2003). Fodd bynnag, gall yr ysgogiad ar gyfer cyfranogiad ehangach greu tensiynau rhwng 'tin-droi yn erbyn addysg dan arweiniad oedolion' a 'gadael i'r ifanc fod yn erbyn cyfranogiad' (Forkby a Kiilakoski, 2014).

Gall pobl ifanc hefyd fod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gwasanaethau ieuenctid pan allant gymryd mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau (Akiva, Cortina a Smith, 2014). Lle mae yna fwy o gyfleoedd i arwain neu wneud penderfyniadau, mae pobl ifanc wedi adrodd am fwy o deimladau o berchnogaeth ac ymrymuso (Larson et al., 2005), a lefelau uwch o bresenoldeb (Deschenes et al., 2010).

Mae Taru (2010), mewn adolygiad o'r dystiolaeth bresennol, yn dod i'r casgliad bod elfennau allweddol o b'un a yw rhaglenni datblygu ieuenctid yn llwyddiannus ai peidio yn cynnwys:

- Cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu, lleisio eu barn a gwneud penderfyniadau; a
- Chynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a darparu gweithgareddau datblygu ieuenctid/gwaith ieuenctid.

Mae yna nifer o ffyrdd y gall pobl ifanc gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a dylanwadu ar wasanaethau ieuenctid, ac mae'n amlwg bod yna lefelau a mathau o gyfranogiad gwahanol yn bodoli. Mae cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni yn golygu bod yna botensial i wella llwyddiant y rhaglenni hynny o ran diwallu anghenion cyfranogwyr. Mae caniatáu i bobl ifanc gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu atebion sy'n effeithio ar eu bywydau yn annog ieuenctid i berchnogi'r atebion hyn.

**"Mae cyfranogiad a dylanwad pobl ifanc wrth hyrwyddo a darparu gweithgareddau cadarnhaol yn bwysig er mwyn cynyddu a chynnal**

**lefelau cyfranogiad a hefyd i elwa i'r eithaf ar y manteision."** (C4EO, 2010, tud.2)

Un strategaeth ar gyfer cyfranogiad yw partneriaethau ieuenctid-oedolion, sy'n wahanol i raglenni datblygu ieuenctid nodweddiadol a arweinir gan oedolion neu a arweinir gan ieuenctid. Mae'r partneriaethau hyn yn gweld pobl ifanc ac oedolion yn cynllunio, dysgu a gweithio gyda'i gilydd, gyda'r ddau grŵp yn rhannu'r broses o wneud penderfyniadau yn gyfartal (Canolfan Arloesi ar gyfer Datblygu Cymunedol ac Ieuenctid, 2003, a ddyfynnwyd yn Subramaniam a Moncloa, 2010; Dupuis a Mann-Feder, 2013). Mae ymchwil ansoddol a oedd yn archwilio safbwyntiau pobl ifanc ar yr hyn a oedd yn bwysig ar gyfer llwyddiant y partneriaethau hyn yn pwysleisio'r meysydd canlynol:

i) Perthnasoedd cefnogol ag oedolion a chyfoedion;

ii) Agweddau cadarnhaol, parch a lle diogel i fynegi llais;

iii) Dysgu ar y cyd a meithrin sgiliau; ac

iv) Effaith gymunedol (Subramaniam a Moncloa, 2010).

Dangosir astudiaeth feintiol a edrychodd ar effaith arferion gwneud penderfyniadau ieuenctid ar sgiliau cymdeithasol fel effeithiolrwydd ac empathi yn Astudiaeth Achos 1 (Akiva, Cortina a Smith (2014).

## Astudiaeth Achos 1. Cynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau am wasanaethau ieuenctid yn yr Unol Daleithiau

**Ymchwiliodd yr astudiaeth hon i gyffredinrwydd arferion gwneud penderfyniadau ar gyfer gwasanaethau ieuenctid a'u heffaith (Akiva, Cortina a Smith, 2014). Dilynodd yr astudiaeth 979 o bobl ifanc a oedd yn mynychu 63 o raglenni ar ôl ysgol amlbwrpas ar draws pedair talaith yn yr Unol Daleithiau. Roedd y rhaglenni'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys cyfoethogi'r celfyddydau (crefftau, cerddoriaeth, drama, dawns), mathau eraill o gyfoethogi (arweinyddiaeth, datrys gwrthdaro, coginio, technoleg), a chwaraeon.**

**Canfuwyd bod arferion gwneud penderfyniadau a rennir yn gymharol gyffredin, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rhannu pŵer isel fel cynnwys pobl ifanc wrth ddewis y gweithgareddau a gynigir gan raglen. Roedd cysylltiad cadarnhaol rhwng arferion gwneud penderfyniadau'r gwasanaeth ieuenctid a chymhelliant ieuenctid i fynychu rhaglenni. Canfuwyd cysylltiadau cadarnhaol hefyd rhwng arferion gwneud penderfyniadau ac:**

- **Effeithiolrwydd pobl ifanc wrth ddatrys problemau (er enghraifft, cyfranogwyr yn dweud eu bod yn 'ceisio meddwl am lawer o atebion wrth wynebu problem');**
- **Effeithiolrwydd mynegiant (er enghraifft, cyfranogwyr yn dweud eu bod yn 'gallu siarad am eu meddyliau a'u teimladau'); ac**
- **Empathi (er enghraifft, cyfranogwyr yn dweud eu bod yn 'ceisio deall sut mae ffrindiau'n teimlo pan fyddant yn ddig, yn ofidus neu'n drist).**

**Awgrymodd rhyngweithiadau sylweddol ag oedran fod y cysylltiadau â datrys problemau ac empathi yn fwy amlwg ymhlith cyfranogwyr hŷn.**

# Gwasanaethau ieuenctid mynediad agored

Mae gwasanaethau ieuenctid mynediad agored yn cyfeirio at wasanaethau sydd ar gael i bob unigolyn ifanc, beth bynnag fo'i gefndir neu ei anghenion (Robertson, 2005). Mae toriadau i gyllid wedi rhoi gwasanaethau ieuenctid mynediad agored dan fygythiad, ac un o'r peryglon yw y bydd pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwasanaeth sydd wedi'i docio yn cael eu labelu a'u stigmateiddio, gan waethygu yn hytrach na lleddfu allgáu cymdeithasol. Math cyffredin o wasanaethau ieuenctid mynediad agored yw clybiau ieuenctid, y dangoswyd eu bod o fudd i bobl ifanc o ran:

- Meithrin perthnasoedd â chyfoedion;
- Darparu'r cyfle i gael perthynas anffurfiol, barchus ag oedolion; a
- Chynnig y gallu i gyfranogi a chymdeithasu (Robertson, 2000/01).

Mae'r amrywiaeth o dermau a ddefnyddir yn y llenyddiaeth i ddisgrifio'r math hwn o wasanaeth yn heriol o ran llunio corff o dystiolaeth (Hill, 2020). Maen nhw'n cynnwys darpariaeth gyffredinol, gwaith ieuenctid generig, gwasanaethau ieuenctid, allgymorth, neu weithgareddau ieuenctid cadarnhaol (gan gyfeirio at McGregor 2015; Ritchie ac Ord, 2016). Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y pwysau cynyddol i fesur a dangos effaith darpariaeth gwaith ieuenctid mynediad agored (e.e. Fyfe et al., 2018; Hill, 2020):

> **"Mae gwaith ieuenctid mynediad agored yn 'agored' yn ôl ei ddiffiniad, ac yn hyblyg er budd pobl ifanc, ac felly mae ceisio mesur ei effaith yn cyfyngu ar natur y ddarpariaeth a gynigir ac yn ei ffurfio yn y pen draw."** (Hill, 2020, tud.5)

Oherwydd natur gwaith ieuenctid mynediad agored, mae'n anaddas i fathau o werthusiad arbrofol meintiol sy’n defnyddio grwpiau 'triniaeth' a 'rheoli' a chanddynt newidynnau 'canlyniad' rhagnodedig. Mynegwyd pryderon hefyd y gall dadansoddiad meintiol nad yw'n drwyadl arwain at ddryswch rhwng cydberthynas ac achosiad. Er enghraifft, mae Ritchie ac Ord (2016) ac eraill yn tynnu sylw at yr ymchwil ddylanwadol gan Feinstein, Bynner a Duckworth (2005) a adroddodd fod ‘presenoldeb mewn clwb ieuenctid yn 16 oed yn dal i fod yn rhagfynegydd pwerus o fod yn droseddwr'. Gellir camddehongli'r math hwn o gydberthynas syml fel un sy'n awgrymu bod clybiau ieuenctid yn gwneud troseddu'n fwy tebygol, tra ei fod, mewn gwirionedd, yn dangos bod y rhai sy'n debygol o droseddu yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y math hwn o wasanaeth neu gael eu cyfeirio ato. Felly, gall canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau y ceir tystiolaeth o effaith gadarnhaol feintiol ar eu cyfer fygwth y cysyniad o waith ieuenctid mynediad agored.

O ganlyniad i'r heriau sy'n rhan annatod o dystiolaeth feintiol mewn perthynas â gwasanaethau ieuenctid mynediad agored, mae gan dystiolaeth ansoddol rôl gref i'w chwarae. Gan ddefnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, canfu adolygiad naratif Hill (2020) o lenyddiaeth y Deyrnas Unedig a llenyddiaeth ryngwladol (gan gynnwys adolygiadau systematig) fod cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid mynediad agored yn dylanwadu’n gadarnhaol ar ystod o wahanol agweddau ar fywyd, sef:

1. **Cymdeithas** e.e. cydlyniant cymdeithasol, cymryd y cam cyntaf, dylanwadu ar benderfyniadau lleol, gwirfoddoli mwy, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chysylltiadau rhyngddiwylliannol, ymgysylltu gwleidyddol, dinasyddiaeth weithredol;
2. **Datblygiad personol** e.e. hunan-barch a hyder, hunaniaeth bersonol, datrys problemau, sgiliau cymdeithasol, datrys gwrthdaro, codi dyheadau, bydolwg a chredoau ehangach, gwybodaeth am yr hunan, hunanreolaeth, delio â rhwystrau, meddwl strategol;
3. **Perthnasoedd** e.e. dibynadwy, anfeirniadol, teimlo bod eraill yn ei gredu, teimlo bod eraill yn ei glywed ac yn gwrando arno, teimlo ei fod yn cael ei gefnogi, ei dderbyn a’i barchu, goresgyn unigedd, meithrin gallu ar gyfer perthnasoedd cadarnhaol yn y dyfodol;
4. **Cyflogaeth ac addysg** e.e. hyfforddiant, datblygu cyfalaf cymdeithasol, entrepreneuriaeth, gwella cyfleoedd am swyddi, meithrin sgiliau caled a meddal ar gyfer y gweithle, cyfleoedd gwirfoddol neu â thâl, meithrin sgiliau nad ydynt yn rhai gwybyddol, cymorth gyda cheisiadau, atal gadael yr ysgol yn gynnar;
5. **Lle diogel i fod** e.e. mynd o’r cartref ac oddi wrth densiynau mewn mannau eraill, lle 'nad yw’n debyg i’r ysgol', lle i gymdeithasu a chael hwyl, lle hygyrch

rhad ac am ddim na fydd yn cael ei eithrio ynddo, lle diogel i ffwrdd o heriau yn y gymuned, lle i fod, ymdeimlad o berthyn;

6. **Meithrin sgiliau** e.e. cyfleoedd i roi cynnig ar bethau newydd, meithrin sgiliau caled a meddal, cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth, dawns, crefft, celf neu chwaraeon, dysgu cyflwyno, trefnu, cyfathrebu ac arwain; ac
7. **Iechyd a llesiant** e.e. lleihau ymddygiad niweidiol a pheryglus (e.e. camddefnyddio sylweddau), darparu man i gael seibiant a noddfa ynddo, galluogi prosesau gwneud penderfyniadau da ac ystyried risg, dulliau ataliol (e.e. gweithgarwch gangiau), cynyddu hunanofal.

Mae Hill hefyd yn rhybuddio na ddylai pob prosiect gwaith ieuenctid ddisgwyl gweld yr un effeithiau, a gall rhai fod yn negyddol. Y rheswm am hyn yw bod eu nodau, y gwasanaethau sydd ar gael a'r grwpiau sy'n cymryd rhan yn gallu amrywio (Hill, 2020).

Mae tystiolaeth a gasglwyd gan bobl ifanc yn canfod bod 'cymdeithas' (sy'n pwysleisio'r berthynas rhwng pobl ifanc a chreu amgylchedd 'clwb') yn sbardun allweddol i ymgysylltu (Ritchie ac Ord, 2016). Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r berthynas y maent yn ei ffurfio â gweithwyr ieuenctid, ac yn cydnabod y cymorth a'r arweiniad a gynigir iddynt, elfennau sy'n eu galluogi i fyfyrio mewn modd rhagorach ar yr hyn a all fod yn fywyd cymhleth, a theithio trwyddo (Ritchie ac Ord, 2016). Gall y gwerth y mae pobl ifanc yn ei roi ar y perthnasoedd y maent yn eu ffurfio gael ei golli o werthusiadau o effaith feintiol 'galed' sy'n canolbwyntio ar effeithiau mesuradwy megis cyrhaeddiad addysgol, gweithgarwch troseddol neu gyflogaeth. Mae hwn yn rheswm arall pam y dylai pobl ifanc gymryd rhan nid yn unig yn y broses o bennu'r mathau o ddarpariaeth ond hefyd yn y gwaith o werthuso ymyriadau.

Clybiau ieuenctid yw'r mathau mwyaf adnabyddus o wasanaethau ieuenctid mynediad agored. Y syniad ymhlyg y tu ôl i glybiau ieuenctid yw eu bod yn cynnig lle i grwpiau amrywiol o bobl ifanc ac y dylent fod yr un mor hygyrch i bob person ifanc beth bynnag fo'u cefndir (Kiilakoski a Kivijärvi, 2015).  Fodd bynnag, gall eithrio ddigwydd (gweler Astudiaeth Achos 2).

## Astudiaeth Achos 2. Clybiau ieuenctid mynediad agored yn y Ffindir

**Yn unol â'r model Llychlynnaidd o les, mae gwaith ieuenctid yn rhan annatod o bolisi lles yn y Ffindir (Forkby a Kiilakoski, 2014). Yn y Ffindir, mae clybiau ieuenctid lleol (neu 'dai ieuenctid') yn cael eu hariannu a'u llywodraethu gan awdurdodau lleol i raddau helaeth. Mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu**

bod mwy na mil o glybiau ieuenctid yn cael eu defnyddio'n ddyddiol yn y Ffindir, i lawr o tua 1,500 ym 1989 (Gretschel, 2017; Forkby a Kiilakoski, 2014). Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 5-10% o bobl ifanc yn mynychu clybiau ieuenctid yn rheolaidd (Kiilakoski, 2011 a nodwyd yn Forkby a Kiilakoski, 2014). Yn ogystal, mae deg canolfan ieuenctid genedlaethol sy'n arbenigo mewn addysg antur, natur, amgylcheddol a diwylliannol, gwersylloedd a gwaith ieuenctid cymdeithasol a rhyngwladol (Gretschel, 2017). Gellir gwahaniaethu rhwng canolfannau ieuenctid a thai ieuenctid a ddefnyddir yn ystod y dydd hefyd oherwydd eu cyfleusterau llety dros nos (Gretschel, 2017).

Er gwaethaf natur mynediad agored clybiau ieuenctid yn y Ffindir, mae heriau o ran cynnal mynediad agored yn ymarferol. Mae rhai astudiaethau wedi pwysleisio 'rheolaeth ddiwylliannol' grwpiau penodol mewn rhai clybiau ieuenctid. Yn y sefyllfa hon, mae defnyddwyr presennol yn rheoli'r gofod drwy anwybyddu neu eithrio pobl ifanc newydd (Forkby a Kiilakoski, 2014). Gall hyn leihau hygyrchedd y clwb ieuenctid, sy'n golygu bod angen i weithwyr ieuenctid roi mwy o sylw i arferion neilltuo gan ddefnyddwyr gwasanaeth presennol (Kiilakoski a Kivijärvi, 2015).

# Heriau a ffactorau hwyluso

Ceir crynodeb o'r heriau a'r ffactorau hwyluso sy'n ymwneud â gwasanaethau ieuenctid a'u heffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn Nhabl 1.

### Tabl 1: Heriau a ffactorau hwyluso

| Heriau | Ffactorau hwyluso |
|---|---|
| • Mae toriadau mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau ieuenctid a mwy o dargedu yn bygwth darparu gwasanaethau mynediad agored, sy'n cael eu gwerthfawrogi gan bobl ifanc, ac yn peryglu labelu'r rhai sy'n cymryd rhan. Mae hyn, yn ei dro, yn peryglu cynyddu allgáu cymdeithasol yn hytrach na'i leddfu.<br>• Mae caniatáu i bobl ifanc gyfrannu at wneud penderfyniadau mewn gwasanaethau ieuenctid yn arwain at lawer o fanteision i bobl ifanc, ond mae'n bwysig bod cyfranogiad yn ystyrlon.<br>• Mae perygl y gallai pwyslais ar werthuso effaith yn feintiol arwain at ddarpariaeth gul nad yw'n cael ei gwerthfawrogi gan bobl ifanc. Mae'n bwysig bod pobl ifanc hefyd yn cymryd rhan mewn gwerthuso gwasanaethau ieuenctid.<br>• Gall hyd yn oed gwasanaethau ieuenctid mynediad agored, fel clybiau ieuenctid, arwain at eithrio oherwydd ymddygiad y rhai sydd eisoes yn mynychu. | • Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi bod yn gyfrwng cadarnhaol ar gyfer newid ac wedi cyfrannu at fwy o gyfranogiad gan bobl ifanc yn y pethau sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid.<br>• Mae dull Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau ieuenctid yn ceisio grymuso pobl ifanc a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau. |

# Casgliad

Mae gwasanaethau ieuenctid yn chwarae rhan bwysig o ran helpu pobl ifanc i deithio’r llwybr i annibyniaeth, ac yn cynnig cyfle ar gyfer ymyriad cynnar yn achos pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd. Maen nhw’n helpu lleihau allgáu cymdeithasol ac yn mynd i'r afael â rhai agweddau ar dlodi ac maen nhw’n debygol o fod yn fwyfwy pwysig oherwydd bod y pandemig Coronafeirws wedi tarfu ar fywydau llawer o bobl ifanc, gan effeithio ar eu proses o bontio i annibyniaeth. Gall mynediad at wasanaethau ieuenctid fod yn hollbwysig i bobl ifanc ddifreintiedig a gall sicrhau bod gwasanaethau'n rhai mynediad agored osgoi labelu a stigma.

Mae dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd a gwerth cyfranogiad ieuenctid mewn gwasanaethau ieuenctid. Mae cymryd rhan o fudd i bobl ifanc mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys datblygu sgiliau cymdeithasol. Mae gan bobl ifanc rôl bwysig i'w chwarae hefyd wrth gynllunio'r gwerthusiad o wasanaethau fel y gall y rhain adlewyrchu pa wasanaethau a pha elfennau o'r gwasanaethau hynny sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, mae toriadau mewn cyllid wedi rhoi gwasanaethau mynediad agored dan fygythiad.

# Trosglwyddo i Gymru

Mae hwn yn faes polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn weithgar ynddo ers peth amser, mewn ffordd sy'n gyson â dull seiliedig ar hawliau sy'n cwmpasu cyfranogiad ieuenctid. Gall mynediad at wasanaethau ieuenctid fod yn arbennig o heriol i bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle gall anfantais drafnidiaeth fod yn ffactor, sy'n golygu bod gorgyffwrdd perthnasol rhwng gwasanaethau ieuenctid a'r adolygiad polisi sy'n canolbwyntio ar anfantais drafnidiaeth.

# Camau gweithredu addawol

Daw'r adran hon i ben gyda **chamau gweithredu addawol** i'w hystyried yng nghyd-destun Cymru fel rhai sy'n deillio o'r dadansoddiad o'r llenyddiaeth ryngwladol:

1. Mae **darpariaeth mynediad agored** yn hyrwyddo cynwysoldeb ac yn osgoi'r stigma sy'n aml yn codi o dargedu gwasanaethau i'r rhai mwyaf difreintiedig.
    - Mae arbenigwyr wedi mynegi pryder am y **pwysau cynyddol i fesur** a dangos effaith feintiol darpariaethau gwaith ieuenctid mynediad agored, elfen a all arwain at gamddehongli a diwygio niweidiol.

2. Mae **cyfranogiad ystyrlon ymhlith pobl ifanc**, sy'n harneisio eu profiad byw trwy eu hymgysylltiad â'r gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau ieuenctid, yn gallu arwain at welliannau a manteision i wasanaethau i bobl ifanc. Mae cyfranogiad ystyrlon yn gofyn am ymgysylltu gweithredol a dylanwad gwirioneddol, o'i gyferbynnu â phresenoldeb goddefol neu rolau symbolaidd.

- Mae yna dystiolaeth o ansawdd da yn bodoli fod cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ieuenctid yn arwain at **well sgiliau cymdeithasol (effeithiolrwydd ac empathi),** a bod cyfleoedd i fod yn arweinydd neu i wneud penderfyniadau yn arwain at **fwy o deimladau o berchnogaeth ac ymrymuso, a lefelau uwch o bresenoldeb**.
- Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** wedi bod yn gyfrwng cadarnhaol ar gyfer newid, gan arwain at fwy o gyfranogiad gweithredol o du pobl ifanc mewn materion sy'n effeithio arnynt.

# Cyfeirnodau


Akiva, T., Cortina, K. S., a Smith, C. (2014). **Involving Youth in Program Decision-Making: How Common and What Might it Do for Youth?** Journal of Youth Adolescence, 43, 1844-1860.

Arnstein, S. R. (1969). **A ladder of citizen participation.** Journal of the American Institute of Planners, 35:4, 216-224.

Bramley, G., a Fitzpatrick, S. (2018). **Homelessness in the UK: who is most at risk?** Housing Studies, 33:1, 96-116.

C4EO [Y Ganolfan er Rhagoriaeth a Chanlyniadau mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc]. (2010). **Increasing the engagement of young people in positive activities.** Crynodeb ymchwil 1. Y Ganolfan er Rhagoriaeth a Chanlyniadau mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Carter, I. (2022a). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Carter, I. (2022b). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru: Adolygiad o dystiolaeth profiad bywyd.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Checkoway, B. (2011). **What is youth participation?** Children and Youth Services Review, 33, 340–345.

CYPE [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg]. (2016). **Pa fath o wasanaeth ieuenctid sydd ei eisiau ar Gymru? Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuenctid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**. Wedi'i adfer o: **https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld10870/cr-ld10870-e.pdf**

Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. (2019). **Cyfiawnder yng Nghymru i Bobl Cymru.** Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Wedi'i adfer o: **https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20ENG%20DIGITAL_2.pdf**

Cooper, K., a Hills, J. (2021). **The Conservative Governments' Record on Social Security: Policies, Spending and Outcomes, May 2015 to pre-COVID 2020.** Papur Ymchwil 10 Polisïau Cymdeithasol a Chanlyniadau Dosbarthiadol mewn Prydain sy'n Newid. Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain: Llundain.

Davies, B. (2013). **Youth work in a changing policy landscape: the view from England.** Youth & Policy, 110, 6-32.

Davies, B. (2019). **Austerity, Youth Policy and the Deconstruction of the Youth Service in England.** Palgrave Macmillan.

Deschenes, S. N., Arbreton, A., Little, P.M., Herrera, C., Grossman, J.B., Weiss, H.B., et al. (2010). **Engaging older youth: Program and city-level strategies to support sustained participation in out-of-school time**. Cambridge, MA: Prosiect Ymchwil Teuluoedd Harvard a Mentrau Cyhoeddus/Preifat. Comisiynwyd gan Sefydliad Wallace.

Dupuis, J., a Mann-Feder, V. (2013). **Moving towards emancipatory practice: Conditions for meaningful youth empowerment in child welfare**. International Journal of Child, Youth and Family Studies, 3, 371–380.

Estyn. (2018). **Gwerth Gwaith Ieuenctid, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru.** Wedi'i adfer o: **https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Youth%2520Support%2520Services%2520in%2520Wales.pdf**

Asiantaeth Weithredol Addysg, Clyweledol a Diwylliant (EACEA). (2013). **Youth Social Exclusion and Lessons from Youth Work**. Y Comisiwn Ewropeaidd.

Fahmy, E. (2017). **Youth Poverty and Social Exclusion in the UK.** Yn Blackman, S. a Rogers, R. (goln) Youth Marginality in Britain: Contemporary Studies of Austerity. Policy Press.

Fahmy, E. (2018). **The impoverishment of youth: poverty, deprivation and social exclusion among young adults in the UK**. Yn Dermott, E., Gill, M., Bramley, G., Bailey, N. (goln) Poverty and Social Exclusion in the UK: Cyfrol 1, Policy Press.

Feinstein, L., Bynner, J., a Duckworth, K. (2006). **Young people's leisure contexts and their relation to adult outcomes.** Journal of Youth Studies, 9: 305-27.

Finn, J., Nybell, L., a Shook, J. (2013). **Place, power, and possibility: Remaking social work with children and youth.** Children and Youth Services Review, 35(8), 1159-1165.

Fitzgerald, A., Lupton, R., a Brady, A.M. (2014). **Hard Times, New Directions? The impact of the local government spending cuts in three deprived neighbourhoods of London.** Social Policy in a Cold Climate, Papur Gwaith 9. Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain.

Flores, K. S. (2008). **Youth participatory evaluation: Strategies for engaging young people**. San Francisco, CA: Jossey-Bass Publishers.

Forkby, T., a Kiilakoski, T. (2014). **Building capacity in youth work: Perspectives and practice in youth clubs in Finland and Sweden**. Youth and Policy, 112, 1-17.

Fyfe, I., Biggs, H., Hunter, S., McAteer, J., a Milne, D. (2018). **The Impact of Community-based Universal Youth Work in Scotland**. Astudiaeth a gomisiynwyd gan Grŵp Llywio Ymchwil Gwaith Ieuenctid yr Alban. Wedi'i adfer o: **https://www.youthscotland.org.uk/resources/impact-of-community-based-universal-youth-work-in-scotland/**

Gambone, M. A., Klem, A.M., a Connell, J. P. (2002). **Finding out what matters for youth: Testing key links in a community action framework for youth development.** Philadelphia, PA: Youth Development Strategies, Inc., a'r Sefydliad Ymchwil a Diwygio mewn Addysg. Wedi'i adfer o: **http://www.ydsi.org/YDSI/pdf/WhatMatters.pdf**

Gretschel, A. (Gol.), Cupar, T., Linno, M., Kiilakoski, T., Hästbacka N., a Korhonen, A. (2017). **Studying the impact of international youth work – Towards developing an evaluation tool for youth centres**. Helsinki: Cymdeithas Canolfannau Ieuenctid y Ffindir. Suomen nuorisokeskusyhdistyksen julkaisuja, 1/2017.

Hart, R.A. (2008). **Stepping Back from 'The Ladder': Refl ections on a Model of Participatory Work with Children**. Yn Reid, A., Jensen, B.B., Nikel, J., a Simovska, V. (goln), Participation and Learning. Springer, Dordrecht.

Hart, R. A. (1992). **Children's Participation: From tokenism to citizenship**. Traethawd rhif 4 Innocenti, Canolfan Datblygu Plant Ryngwladol, Florence. Wedi'i adfer o: **https://www.unicef-irc.org/publications/100-childrens-participation-from-tokenism-to-citizenship.html**

Hill, P. (2020). **Open Access Youth Work: A Narrative Review of Impact**. Cronfa Cornerstone. Wedi'i adfer o: **http://www.youthworkunit.com/wp-content/uploads/2020/09/Open-access-youth-work-review-Phoebe-Hill-1.pdf**

Hill, M., Davis, J., Prout, A., a Tisdal, K. (2004). **Moving the Participation Agenda Forward**. Children and Society 18: 77-96.

Horton, J. (2016). **Anticipating service withdrawal: young people in spaces of neoliberalisation, austerity and economic crisis.** Transactions of the Institute of British Geographers, 41(4).

Howick, J., Chalmers, I., Glasziou, P., Greenhalgh, T., Heneghan, C., Liberati, A., Moschetti, I., Phillips, B., a Thornton, H. (2011). **The 2011 Oxford CEBM Levels of Evidence (Introductory Document)**. Canolfan Rydychen ar gyfer Meddygaeth seiliedig ar Dystiolaeth. Wedi'i adfer o: **https://www.cebm.ox.ac.uk/resources/levels-of-evidence/ocebm-levels-of-evidence**

Canolfan Arloesi ar gyfer Datblygu Cymunedol ac Ieuenctid, y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Ieuenctid a’r Sefydliad Arweinyddiaeth Ieuenctid. (2003). **Youth-Adult Partnerships: A Training Manual**. Chevy Chase, MD: Cyngor Cenedlaethol 4-H.

Jervis, M. (2018). **Our Future – A Review of Extending Entitlement.** Wedi'i adfer o: **http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youth-work/extending-entitlement-support-for-11-to-25-year-olds-in-wales/?lang=en**

Jones, R. (2020). **Carcharu, Prawf a Dedfrydu yng Nghymru**. **2019.** Ffeil Ffeithiau, Canolfan Llywodraethiant Cymru.

Pwyllgor Cyfiawnder. (2018). **Transforming Rehabilitation: Follow-up.** Pedwerydd Adroddiad ar Bymtheg Sesiwn 2017–19, HC 2526. Wedi’i adfer o: https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmworpen/2526/2526.pdf

Kelly, L. (2012). **Representing and Preventing Youth Crime and Disorder: Intended and Unintended Consequences of Targeted Youth Programmes in England**. Youth Justice, 12(2).101-117.

Kenway, P., Ayrton, C., Chandran, C., a Tortajada, I. (2022). **What makes an anti-poverty strategy effective?** Llundain: Sefydliad Polisi Newydd.

Kiilakoski, T., a Kivijärvi, A. (2015). **Youth clubs as spaces of non-formal learning: professional idealism meets the spatiality experienced by young people in Finland**. Studies in Continuing Education, 37:1, 47-61.

Kirschner, B., ac O'Donoghue, J. L. (2003). **Youth evaluating programs for youth: stories of youth IMPACT**. New Directions for Youth Development, 96: 101-118.

Larson, R. W., Walker, K., a Pearce, N. (2005). **A comparison of youth-driven and adult-driven youth programs: Balancing inputs from youth and adults.** Journal of Community Psychology, 33(1), 57–74.

Levitas, R., Pantazis, C., Fahmy, E., Gordon, D., Lloyd-Reichling, E., a Patsios, D. (2007). **The multi-dimensional analysis of social exclusion**. Bryste: Prifysgol Bryste.

McGregor, C. (2015). **Universal youth work: A critical review of the literature**, yng Nghonsortiwm Gwaith Ieuenctid Caeredin a Phrifysgol Caeredin.

Obolenskaya, P., a Hills, J. (2019). **Flat-lining or seething beneath the surface? Two decades of changing economic inequality in the UK**. Oxford Review of Economic Policy, 35(3), 467–489.

O'Donnell, M., Bellis, A., Baker, C., a Jarrett, T. (2019). **General debate on the role and sufficiency of youth services**. Pecyn Dadl Rhif CDP-0201. Wedi'i adfer o: **https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CDP-2019-0201/CDP-2019-0201.pdf**

MacDonald, R. (2006). **Social Exclusion, Youth Transitions and Criminal Careers: Five Critical Reflections on Risk.** Australian & New Zealand Journal of Criminology, 39(3), 371-383.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). **Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru.** Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Wedi'i adfer o: **https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/youth-justice-blueprint_0.pdf**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). **Cynllun Gweithredu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid**. Llywodraeth Cymru: Caerdydd. Wedi'i adfer o: **https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/youth-justice-blueprint-implementation-plan.pdf**

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. (2015). **Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru 2014-2016**. Wedi'i adfer o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/453579/Wales-Reducing-Reoffending-Strategy-_e_.pdf**

Nelson, J., Martin, K., a Featherstone, G. (2013). **What Works in Supporting Children and Young People to Overcome Persistent Poverty? A Review of UK and International Literature**. Belfast: Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog.

Ord, J., Carletti, M., Morciano, D., Siurala, L., Dansac, I., Cooper, S., Fyfe, I. et al. (2021). **European Youth Work Policy and Young People's Experience of Open Access Youth Work**. Journal of Social Policy, 1–21.

Padley, M., Valadez, L., a Hirsh, D. (2014). **Households below a minimum income: 2008/09 to 2011/12.** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Pantea, M. (2015). **Social inclusion of young people in Europe: Trends and policy measures.** Strasbourg, Ffrainc: Council of Europe Publishing**.**

Phillips, J. (2019). **What went wrong with attempts to outsource probation? Lessons from the Transforming Rehabilitation programme in England and Wales.** Adolygiad Archbold (7), 5-10.

Ritchie, D., ac Ord, J. (2016). **The experience of open access youth work: the voice of young people.** Journal of Youth Studies, 20: 269-82.

Robertson, S. (2000/01). **A Warm Safe Space: An argument for youth clubs**. Youth and Policy, 70, 71-77.

Robertson, S. (2005). **Youth clubs: Association, participation, friendship and fun**. Lyme Regis: Russell House.

Sherman, L. W., Gottfredson, D., Mackenzie, D., Eck, J., Reuter, P., a Bushway, S. (1997). **Preventing Crime: What Works, What Doesn't, What's Promising**. Adroddiad i Gyngres yr Unol Daleithiau. Washington, D.C. Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau.

Shier, H. (2001). **Pathways to participation: Openings, opportunities, and obligations**. Children and Society, 15, 107–11.

Smith, C., Akiva, T., Lo, Y.-J., Sugar, S., Frank, K. A., Peck, S.C., et al. (2012). **Continuous quality improvement in afterschool settings: Impact findings from the Youth Program Quality Intervention study.** Washington, DC: Y Fforwm ar gyfer Buddsoddi Ieuenctid.

Ystadegau ar gyfer Cymru. (2021). **Gwaith ieuenctid yng Nghymru, 2019-20.** SFR 167/2021. Llywodraeth Cymru. Wedi'i adfer o: **https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-06/youth-work-april-2019-march-2020-957.pdf**

Strandh, M., Winefield, A., Nilsson, K., a Hammarström, A. (2014). **Unemployment and mental health scarring during the life course**. European Journal of Public Health, 24(3), 440–445.

Subramaniam, A., a Moncloa, F. (2010). **Young People's Perspectives on Creating a 'Participation-Friendly' Culture**. Children, Youth and Environments, 20(2): 25-45.

Taru, M. (2010). **Youth work in Tallinn: the positive impact on young people.** Studies of Transition States and Societies, 2(2): 82-97.

Taru, M., Coussée, M., a Williamson, H. (2014). **Youth work in connection to policies and politics**. Yn Taru, M., Coussée, M., a Williamson, H. (goln), The history of youth work in Europe. Relevance for today's youth work policy. Cyfrol 4. Strasbourg: Council of Europe Publishing**.**

UNSAIN. (2016). **A future at risk Cuts in youth services.** Llywodraeth Leol UNSAIN. Wedi'i adfer o: **https://www.unison.org.uk/content/uploads/2016/08/23996.pdf**

Verschelden, G., Coussée, F., Van De Walle, T., a Williamson, H. (2010). **The history of youth work in Europe and its relevance for today's youth work policy.** Strasbourg: Council of Europe Publishing**.**

Webster, C., Simpson, D., MacDonald, R., Abbas, A., Cieslik, M., Shildrick, T., a Simpson, M. (2004). **Poor transitions: Social exclusion and young adults.** Bryste: Policy Press.

Llywodraeth Cymru. (2014). **Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf. Strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid neu ddod yn rhan ohoni**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2019). **Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru**. Addysg Cymru: Caerdydd.

Welsh, R.O., a Little, S. (2018). **Caste and control in schools: A systematic review of the pathways, rates and correlates of exclusion due to school discipline**. Children and Youth Services Review, 94, 315-339.

Wheeler, W. (2000). **Emerging Organizational Theory and the Youth Development Organization.** Applied Developmental Science 4(1): 47-54.

Wood, D., Larson, R. W., a Brown, J. R. (2009). **How Adolescents Come to See Themselves as More Responsible through Participation in Youth Programs**. Child Development, 80(1), 295–309.

YMCA. (2020). **Out of Service, A report examining local authority expenditure on youth services in England and Wales**. Wedi'i adfer o: **https://www.ymca.org.uk/wp-content/uploads/2020/01/YMCA-Out-of-Service-report.pdf**

# Atodiad: Methodoleg

## Diffiniad o dlodi ac allgáu cymdeithasol

At ddibenion y prosiect hwn, cytunwyd y byddai cysyniad aml-ddimensiwn o anfantais, gan gynnwys dimensiynau cymdeithasol yn ogystal ag economaidd, yn cael ei fabwysiadu. Mae Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) (Levitas et al., 2007) yn darparu'r strwythur damcaniaethol sy'n sail i ddethol meysydd polisi. Mae'r B-SEM yn defnyddio'r diffiniad ymarferol canlynol o allgáu cymdeithasol:

> **"Proses gymhleth ac aml-ddimensiwn yw allgáu cymdeithasol. Mae'n cynnwys diffyg neu wrthod adnoddau, hawliau, nwyddau a gwasanaethau, a'r analluu i gymryd rhan yn y berthynas a'r gweithgareddau arferol, sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas, boed hynny mewn meysydd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu wleidyddol. Mae'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion a thegwch a chydlyniant cymdeithas gyfan."**(Levitas et al., 2007, tud.9).

Mae wedi'i strwythuro o amgylch tri phrif faes a deg is-faes (gweler Tabl A1).

**Tabl A1: Meysydd ac is-feysydd B-SEM**

| **A. Adnoddau:** | |
|---|---|
| **A1: Adnoddau materol/economaidd** | Mae hyn yn cynnwys allgáu mewn perthynas ag incwm, hanfodion sylfaenol (fel bwyd), asedau, dyled ac allgáu ariannol. |
| **A2: Mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat** | Mae hyn yn ymwneud ag allgáu o wasanaethau cyhoeddus a phreifat oherwydd bod gwasanaethau'n annigonol, yn anfforddiadwy neu nad ydynt ar gael. Mae'r ystod o wasanaethau yn cwmpasu gwasanaethau cyhoeddus, cyfleustodau, trafnidiaeth a gwasanaethau preifat (gan gynnwys gwasanaethau ariannol). |
| **A3: Adnoddau cymdeithasol** | Mae hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth cymdeithasol ar gyfer lles unigolion. Mae agwedd |

| | |
|---|---|
| | allweddol yn ymwneud â phobl sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu a'r rhai sydd wedi'u sefydliadoli. |

| B. Cyfranogiad: | |
|---|---|
| **B1: Cyfranogiad economaidd** | Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyflogaeth – sydd nid yn unig yn bwysig ar gyfer cynhyrchu adnoddau ond sydd hefyd yn agwedd ar gynhwysiant cymdeithasol ynddo'i hun. Mae p'un a yw gwaith yn brofiad cadarnhaol, cynhwysol yn dibynnu'n rhannol ar y gwobrau ariannol a ddaw yn ei sgil, ac yn rhannol ar natur ac ansawdd y gwaith. Deëllir gwaith yn fras ac mae'n cynnwys gweithgareddau gofalu a gwaith di-dâl. |
| **B2: Cyfranogiad cymdeithasol** | Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol cyffredin yn ogystal â chydnabod pwysigrwydd cyflawni rolau ystyrlon (e.e. fel rhieni, neiniau a theidiau, plant). |
| **B3: Diwylliant, addysg a sgiliau** | Mae hyn yn cwmpasu cyfalaf diwylliannol a chyfranogiad diwylliannol. Mae'n cynnwys caffael cymwysterau ffurfiol, sgiliau a mynediad at wybodaeth yn ehangach, er enghraifft cynhwysiant llythrennedd digidol. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol a hamdden. |
| **B4: Cyfranogiad gwleidyddol a dinesig** | Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn prosesau gwleidyddol ffurfiol yn ogystal â mathau o weithgarwch gwleidyddol distrwythur ac anffurfiol, gan gynnwys ymgysylltu dinesig a chyfranogiad cymunedol. |
| **C. Ansawdd bywyd:** | |
| **C1: Iechyd a lles** | Mae hyn yn ymdrin ag agweddau ar iechyd. Mae hefyd yn cynnwys agweddau eraill sy'n ganolog i les unigolion megis boddhad bywyd, datblygiad personol, hunan-barch, a bod yn agored i stigma. |
| **C2: Amgylchedd byw** | Mae hyn yn canolbwyntio ar nodweddion yr amgylchedd byw 'dan do', gyda dangosyddion ansawdd tai, tai annigonol ac allgáu ar ffurf digartrefedd; a'r amgylchedd byw 'awyr agored', sy'n cynnwys nodweddion cymdogaeth. |
| **C3: Troseddu, niwed a throseddoleiddio** | Mae hyn yn cynnwys amlygiad i niwed, diogelwch gwrthrychol/goddrychol a throseddu a throseddoleiddio. Mae'n adlewyrchu natur waharddol bosibl bod yn destun |

| | |
|---|---|
| | niwed, yn ogystal ag allgáu, stigmateiddio a throseddoleiddio'r cyflawnwyr. |

Nodiadau: y disgrifiadau o'r is-feysydd yw dealltwriaeth yr awduron o'r hyn y mae pob is-faes yn ei gynnwys yn seiliedig ar Levitas et al. (2007).


# Dewis meysydd polisi

I ddechrau, nododd y tîm ymchwil restr hir o 40 o feysydd polisi gan gyfeirio at feysydd ac is-feysydd y B-SEM. Llywiwyd y rhestr hir, yn rhannol, gan adolygiad o dueddiadau allweddol mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru, ar draws y deg is-faes, a gynhaliwyd gan WCPP (Carter, 2022a); ystyried pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru ar draws meysydd polisi; a chyfarfodydd ag arbenigwyr. O'r rhestr hir hon, cytunwyd ar restr fer o 12 maes polisi. Wrth lunio'r rhestr fer, ystyriwyd cyngor ar feysydd blaenoriaeth a nodwyd gan grŵp ffocws o arbenigwyr, ond yn y pen draw dewiswyd y rhestr derfynol o 12 polisi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r set derfynol o 12 maes polisi yn cwmpasu sbectrwm eang o fewn y B-SEM, ac mae'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â mwy nag un is-faes o fewn y B-SEM (Ffigur A1). Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y detholiad terfynol yn gynhwysfawr o safbwynt polisi tlodi ac allgáu cymdeithasol. Y rheswm am hyn yw nad yw rhai meysydd polisi pwysig wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ac, felly, ni chawsant eu cynnwys. Er enghraifft, er bod digonolrwydd nawdd cymdeithasol yn sbardun allweddol i dlodi, nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau ar hyn o bryd i bennu elfennau allweddol o bolisi nawdd cymdeithasol (e.e. cyfraddau a meini prawf cymhwysedd ar gyfer y prif fudd-daliadau mewn gwaith a di-waith). Dyma'r rheswm pam rydym yn canolbwyntio ar un agwedd ar nawdd cymdeithasol, sef y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod, y mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i ddylanwadu arni.

Ffactor arall oedd cwmpas a graddfeydd amser y prosiect, a oedd yn cyfyngu'r dewis i 12 maes polisi ac yn golygu bod rhaid eithrio meysydd pwysig eraill (er enghraifft, gofal cymdeithasol, gofal iechyd a throseddu). Er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r adolygiadau, roedd hefyd angen nodi ffocws ar gyfer pob un o'r 12 maes polisi. Nododd y tîm ymchwil ffocws ar gyfer pob un o'r adolygiadau ar sail cwmpas cychwynnol byr o'r dystiolaeth ymchwil a thrafod â WCPP, a ymgynghorodd ag arbenigwyr sector a pholisi lle y bo'n berthnasol. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd polisïau ychwanegol y gellid eu cynnwys mewn strategaeth tlodi ac allgáu cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru *o fewn* y 12 maes polisi ac *yn ogystal â'r* 12 maes polisi a adolygwyd.

**Ffigur A1. Y meysydd polisi a ddewiswyd wedi'u mapio i is-feysydd B-SEM perthnasol**




Ffynhonnell: paratowyd gan yr awduron

Nodiadau: Mae'r ffigur yn amlinellu sut mae'r 12 maes polisi a ddewiswyd yn cysylltu â'r matrics B-SEM: mae llinellau trwm yn dangos y berthynas rhwng pob maes polisi a'r prif is-faes/is-feysydd B-SEM, mae llinellau toredig ysgafn yn nodi is-feysydd B-SEM eilaidd a ddewiswyd y mae'r polisïau'n gysylltiedig â nhw (mae rhestr lawn o'r 'is-feysydd eilaidd' hyn wedi'i chynnwys yn yr adolygiadau penodol).

# Camau adolygu

Yn yr adran 'tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi', er nad oedd yn bosibl cynhyrchu adolygiad systematig llawn (er bod tystiolaeth o adolygiadau systematig presennol a dadansoddiadau meta-lefel wedi'u cynnwys pan oeddent ar gael), mabwysiadwyd dull strwythuredig. I ddechrau, roedd hyn yn cynnwys gwerthuso cyflwr y llenyddiaeth berthnasol, gan ganolbwyntio ar b'un a aseswyd effeithiolrwydd drwy ddulliau yr ystyrir yn gyffredinol eu bod yn fwy addas i sefydlu achosoldeb (e.e. ar sail cynlluniau graddio hierarchaidd fel Graddfa Dull Gwyddonol Maryland (Sherman et al., 1997) neu lefelau tystiolaeth Canolfan Rhydychen ar gyfer Meddygaeth seiliedig ar Dystiolaeth (OCEBM) (Howick et al., 2011)), megis hapdreialon rheoledig, meta-ddadansoddiadau o hapdreialon rheoledig ac astudiaethau lled-arbrofol eraill. Er bod hapdreialon rheoledig yn arbennig o effeithiol wrth nodi a yw ymyriad penodol wedi

cael effaith mewn cyd-destun penodol, gallai mathau eraill o dystiolaeth, fel astudiaethau lled-arbrofol ac arsylwadol gyda rheolaethau priodol, fod yn fwy addas, yn dibynnu ar y math o ymyriad, i sefydlu'r ystod o ganlyniadau a gyflawnwyd yn ogystal â rhoi dealltwriaeth o effeithiau dosbarthiadol a chaniatáu ar gyfer dadansoddi is-grwpiau (h.y. 'i bwy' y gweithiodd yr ymyrraeth). Wrth asesu’r dystiolaeth, dewiswyd astudiaethau achos i ymhelaethu ymhellach ar rai o'r canfyddiadau allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad ac i nodi enghreifftiau penodol o ymyriadau polisi addawol.

Mewn ambell faes, tynnodd yr adolygiad o lenyddiaeth sylw at ddiffyg gwerthusiadau cadarn – mae'r adolygiadau'n tanlinellu hyn ac yn cyflwyno'r dystiolaeth orau a ganfuwyd ynghyd ag asesiad o gryfder y dystiolaeth. Lle y bo'n bosibl, ystyriwyd gwerthusiad o'r mecanweithiau newid sylfaenol hefyd, gan ganiatáu ar gyfer esbonio nid yn unig a yw ymyriad penodol yn gweithio, ond hefyd pam, gan felly hefyd hwyluso'r gwaith o nodi heriau a ffactorau hwyluso, sy'n hanfodol wrth feddwl nid yn unig am 'beth' y dylid ei wneud ond hefyd 'sut' y gellir ei weithredu orau.

# Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i nifer o arbenigwyr a fynychodd gyfres o grwpiau ffocws yr oedd eu mewnbwn wedi:

- helpu i lywio'r broses o nodi meysydd polisi allweddol;
- gwella ein dealltwriaeth o drosglwyddo polisïau i Gymru; a
- llywio ein hystyriaeth o heriau gweithredu a ffactorau hwyluso.

Hoffem ddiolch hefyd i'r bobl ganlynol am gynnal adolygiad cymheiriaid o'r adolygiadau polisi: Dr Rod Hick, Prifysgol Caerdydd; Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan; a Gwennan Hardy; y Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Helpodd Amanda Hill-Dixon, Dan Bristow, Manon Roberts ac Isabelle Carter yn WCPP i lywio'r prosiect a rhoesant adborth amhrisiadwy a sylwadau manwl ar ddrafftiau o'r adolygiadau polisi.

## Manylion am yr Awduron

**Mae Dr Irene Bucelli** yn swyddog ymchwil yn y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

**Mae Dr Abigail McKnight** yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol a Chymrawd Ymchwil Athrawol Cyswllt yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
**Dan Bristow**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru